| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | 01 Mawrth 2012 |
| **TEITL** | Ynni Niwclear ac Ynni Adnewyddol yng Ngogledd Orllewin Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Ymateb i ddau Rybudd o Gynnig gan Aelodau |
| **AWDUR** | Sioned Williams<br>Pennaeth Economi a Chymuned |
| **ARGYMHELLIAD** | • Cefnogi penderfyniad Pwyllgor Craffu Datblygu mewn perthynas â diogelwch diwydiant niwclear.<br>• Derbyn y Rhybudd o Gynnig i alw ar y Llywodraeth i gefnogi cynhyrchu trydan trwy ddulliau gwyrdd.<br>• Cefnogi amcanion Cynllun Gwynedd Werdd a chyflawni’r gwaith o fesur cyfleon economaidd o’r sector ynni cyn gwneud unrhyw ddatganiad i’r Llywodraeth. |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd John Wyn Jones |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae dau Rybudd o Gynnig wedi eu cyflwyno i’r Cyngor mewn perthynas â’r diwydiant niwclear dros y misoedd diwethaf. Mae’r adroddiad hwn yn ceisio ymateb i’r ddau Rybudd o Gynnig yn eu tro.

**2. RHYBUDD O GYNNIG (i)**

2.1 Fe nodwch fod y Rhybudd hwn yn datgan pryder am ddiogelwch y diwydiant niwclear ym Mhrydain yn dilyn y trychineb yn Japan. Gofynnwyd i’r Pwyllgor Craffu Datblygu ystyried canlyniadau adroddiad y Prif Archwilydd Niwclear ac adrodd yn ôl i’r Cyngor llawn.

2.2 Cyhoeddwyd adroddiad Dr Mike Weightman, Prif Archwilydd Niwclear Prydain yn mis Hydref 2011. Yn dilyn hyn cyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor Craffu Datblygu 6 Rhagfyr 2011 i ystyried y sefyllfa ar gais y Cyngor. Mae copi o’r adroddiad ar gael i Aelodau ac mae cofnodion y Pwyllgor hwn yn crynhoi’r drafodaeth yn Atodiad 1.

2.3 Yn ôl Dr Weightman, ni wnaeth damwain Fukushima amlygu unrhyw wendidau sylfaenol yn y diwydiant niwclear ym Mhrydain. Ond mae'n dod i’r casgliad bod gwersi i’w dysgu i wneud y diwydiant hyd yn oed yn fwy diogel.

Mae'n adnabod 38 maes lle gellir dysgu gwersi ym Mhrydain o brofiad y digwyddiadau yn Japan.

2.4 Adroddodd Dr Weightman;

*"Rwy'n dal i fod yn hyderus nad oes gan ein cyfleusterau niwclear ym Mhrydain unrhyw wendidau sylfaenol o ran diogelwch. Mae'r Office for Nuclear Regulation eisoes yn ei gwneud yn ofynnol amddiffyn safleoedd niwclear yn erbyn y sefyllfaoedd gwaethaf y gellir eu rhagweld yn y Deyrnas Unedig. Ond nid yw hynny'n golygu ein bod yn llaesu dwylo. Gwella'n barhaus yw ein hegwyddor ni. Ni waeth pa mor uchel yw ein safonau, fe fyddwn bob amser yn ceisio gwella. Byddwn yn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o Fukushima. Mae camau eisoes wedi'u cymryd mewn nifer o achosion, ac mae gwaith ar y gweill i wneud safleoedd yn y Deyrnas Unedig hyd yn oed yn fwy diogel."*

2.5 Fe nodwch fod y Pwyllgor Craffu Datblygu wedi penderfynu:

*(a) Croesawu'r camau a gymerwyd i ymchwilio i ddiogelwch y diwydiant niwclear yn sgil effaith daeargryn Fukushima ar y diwydiant niwclear yn Japan*
*(b) Croesawu'n arbennig y bwriad i weithredu cyfres o gamau i wneud y diwydiant ym Mhrydain yn fwy diogel*
*(c) Cyflwyno adolygiadau cyson ar y cynnydd*

**<u>Argymhelliad Rhybudd o Gynnig (i)</u>**

2.6 Argymhellir bod y Cyngor yn cefnogi penderfyniad y Pwyllgor Craffu Datblygu ac yn peidio galw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ohirio cynlluniau'r Llywodraeth i godi gorsafoedd niwclear newydd am resymau diogelwch ar sail tystiolaeth Prif Archwilydd Niwclear Prydain.

2.7 Byddwn yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â diogelwch y diwydiant yn gyson ac yn cyfeirio adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar sail unrhyw ddatganiad gan arbenigwyr allai beri pryder a newid y safbwynt hwn.

## 3. RHYBUDD O GYNNIG (ii)

3.1 Mae'r ail Rybudd o Gynnig yn rhoi'r pwyslais ar hyrwyddo'r sector ynni adnewyddol yng Ngogledd Orllewin Cymru.

3.2 Mae Bwrdd Rhaglen Economi ac Adfywio Cyngor Gwynedd wedi datblygu a blaenoriaethu Cynllun Gwynedd Werdd er mwyn amlygu a hyrwyddo cyfleoedd i economi Gwynedd o'r sector ynni adnewyddol. Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd y sector ynni drwy flaenoriaethu'r cynllun hwn yn ei Gynllun 3 Blynedd.

3.3 Nod y Cynllun yw ***uchafu gwerth y buddsoddiad yn natblygiad Wylfa B a mentrau cynhyrchu ynni adnewyddol ar draws y sir i economi ardal***

***Gwynedd a hynny drwy baratoi’r gweithlu, datblygu cadwyni cyflenwi, paratoi’r isadeiledd ac adolygu’r polisïau a rheoliadau***.

3.4 Fe nodwch fod nod y cynllun yn cyfeirio at uchafu budd i’r economi o’r diwydiant niwclear yn ogystal i ynni adnewyddol. Mae’n bwysig nodi nad yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud unrhyw ddatganiad o blaid neu yn erbyn ynni niwclear drwy’r cynllun hwn. Os yw’r Llywodraeth a’r sector breifat yn dewis buddsoddi yn y rhanbarth, mae Cynllun Gwynedd Werdd yn cydweithio gyda rhaglen Ynys Ynni i geisio uchafu’r budd mwyaf i economi’r ardal.

3.5 Mae’r Cynllun hwn wedi cael ei herio gan Bwyllgor Craffu Datblygu. Ystyrir y byddai’n anghyfrifol iawn o Gyngor Gwynedd i beidio cydweithio gyda’r Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn uchafu’r budd i drigolion a busnesau Gwynedd.

3.6 O’r cofnodion yn **Atodiad 1** fe nodwch fod Pwyllgor Craffu Datblygu, yn ei gyfarfod 6 Rhagfyr 2011 wedi penderfynu:

*(ch) Derbyn bod trefniadau addas mewn lle i gydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i fanteisio ar y cyfleoedd economaidd i economi Gogledd Cymru o ddatblygiad Wylfa B a mentrau Ynys Ynni.*
*(d) Derbyn bod rhaglen Gwynedd Werdd yn cyflawni’r amcanion.*

3.7 Dros y 3 blynedd nesaf bydd cynllun Gwynedd Werdd yn canolbwyntio ar ddwy agwedd:

**A Ynni Carbon Isel**

- Dylanwadu ar gyfeiriad a datblygiad cynlluniau ynni carbon isel yng Ngogledd Orllewin Cymru
- Cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn a datblygwyr Wylfa B ar raglen Ynys Ynni
- Cefnogi gweithwyr safle Trawsfynydd a Wylfa i fanteisio ar gyfleon cyflogaeth newydd yn y dyfodol (Rhaglen Siapio’r Dyfodol)
- Codi ymwybyddiaeth pobl oed gwaith a busnesau’r sir, ysgolion a’r colegau, ymlaen llaw i’w darparu ar gyfer y cyfleoedd a’r sgiliau fydd eu hangen, gan roi cymorth i rai efo diddordeb yn y diwydiant
- Adnabod a hyrwyddo cyfleoedd newydd i fusnesau Gwynedd yn deillio o ddatblygiadau o fewn y sector yn y rhanbarth
- Cryfhau cyswllt Wylfa B efo busnesau Gwynedd a hyrwyddo cyfleon tendro
- Sicrhau fod cyfleoedd i leoli cwmnïau cyflenwi a pheirianneg y sector mewn lleoliadau ar draws y Gogledd Orllewin

**B Ynni Adnewyddol**

- Cefnogi mentrau economaidd cymunedol a gwledig i sefydlu cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddol a meicro-gynhyrchu
- **Adnabod potensial ynni adnewyddol graddfa fwy i economi Gwynedd, gan sgopio a datblygu cyfleoedd addas ar draws y sir**

- Adnabod a hyrwyddo cyfleon newydd i fusnesau Gwynedd yn deillio o ddatblygiadau o fewn y sector yn y rhanbarth
- Codi ymwybyddiaeth pobl oed gwaith a busnesau’r sir, ysgolion a’r colegau, ymlaen llaw i’w darparu ar gyfer y cyfleon a’r sgiliau fydd eu hangen, gan roi cymorth i rai efo diddordeb yn y diwydiant
- Cefnogi sefydlu safle sgilio ynni adnewyddol a pheirianneg yn ne Gwynedd
- Cyfrannu at sefydlu’r ddelwedd o’r sir fel ‘Gwynedd Werdd’

3.8 Mae gwaith wedi ei gomisiynu i adnabod potensial datblygiadau ynni adnewyddol newydd i ardal Gwynedd i’r dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn allweddol yn gosod meincnod o werth y sector yn y rhanbarth fel y mae heddiw ac yn adnabod y prif gyfleon i gynhyrchu ynni all greu gwaith a sicrhau budd economaidd i’r dyfodol. Mae’n fwriad i’r gwaith hwn osod sail ar gyfer rhaglen waith a blaenoriaethau Gwynedd Werdd i’r dyfodol.

3.9 Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru yn y gwaith hwn ac maen fwriad cynnal digwyddiad Gwynedd Werdd yn yr hydref i hyrwyddo’r cyfleon hyn i bartneriaid yn y cymunedau a’r sector breifat. Bydd casgliadau’r adroddiad yn gosod llwyfan i’r Cyngor i fod yn rhagweithiol gyda’i bartneriaid i dargedu twf yn y sector ynni adnewyddol.

**Argymhelliad Rhybudd o Gynnig (ii)**

3.10 Argymhellir bod Cyngor Gwynedd yn derbyn y cynnig i alw ar y Llywodraeth i gynhyrchu trydan trwy ddulliau gwyrdd.

3.11 Mae’n allweddol bwysig i Aelodau Gwynedd ddeall yn well beth yn union yw’r cyfleon gwaith i Wynedd drwy ddatblygiad ynni niwclear ac ynni adnewyddol. Argymhellir bod casgliadau adroddiad Gwynedd Werdd yn cael ei graffu gan Aelodau’r Cyngor cyn fod unrhyw ddatganiad yn cael ei wneud i’r Llywodraeth gall danseilio ymdrechion i greu gwaith o ansawdd yn y sir i’r dyfodol.